Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Effaith Rhyfel Iran ar Gymru

Effeithiau sy'n dod i'r amlwg ac a ragwelir ar economi, cymdeithas a phrosesau llunio polisïau Cymru

Ioana Filipas, Josh Coles-Riley a Jack Price

Medi 2026

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn pontio'r bwlch rhwng ymchwil a gwneud penderfyniadau drwy wneud tystiolaeth drylwyr ac arbenigedd yn hygyrch, yn berthnasol, ac yn ymarferol i lunwyr polisïau, ymarferwyr ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Ein gweledigaeth: Cymru lle mae polisïau ac ymarfer cyhoeddus yn cael eu llunio'n gyson gan y dystiolaeth a'r wybodaeth orau sydd ar gael, gan arwain at wasanaethau cyhoeddus sy'n fwy effeithiol, cyfiawn ac ymatebol.

Ein cenhadaeth:

- **ADNABOD.** Rydyn ni'n gweithio ar y cyd â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol i'w helpu i adnabod eu heriau polisi mwyaf dyrys, ac yn llunio cyfleoedd ystyrlon er mwyn creu atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- **YMGYNNULL.** Rydyn ni'n dadansoddi ac yn cyfosod ymchwil o safon uchel mewn modd amserol, ac rydyn ni'n dwyn ynghyd arbenigwyr o'r DU ac yn fyd-eang i wella penderfyniadau polisi, a'r broses o'u rhoi ar waith.
- **DATBLYGU.** Rydyn ni'n ehangu gwybodaeth ym maes polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy rannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu, gwerthuso effaith, a chyfrannu at gronfa wybodaeth gynyddol o'r hyn sy'n gweithio'n ymarferol.

Mae gwaith y Ganolfan yn canolbwyntio ar yr heriau polisi mwyaf sy'n wynebu llunwyr polisi yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru. Mae dull y Ganolfan wedi'i seilio ar ymchwil academaidd sy'n arwain y sector, ar yr hyn sy'n pontio'r bwlch rhwng ymchwil a'r gwaith o lunio polisïau.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith 'What Works' y DU a Rhwydwaith Ymgysylltu â Pholisi'r Prifysgolion (UPEN).

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: **www.wcpp.org.uk**

Cyllidwyr Craidd

Cafodd Prifysgol Caerdydd ei sefydlu yn 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas lewyrchus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sy'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cryf ar yr un pryd ag amlygu ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sef sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, yn cynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Cynnwys

4

Cyflwyniad **6**

Effeithiau ar Gymru **7**

Yr effaith economaidd ehangach **8**

Effaith ar aelwydydd **11**

Effaith anghymesur ar aelwydydd gwledig ac aelwydydd ag anghenion ynni uchel 12

Effaith anghymesur ar aelwydydd incwm isel 13

Effaith ar fusnesau **15**

Effaith ar wasanaethau cyhoeddus **16**

Ymatebion polisi **18**

Ymatebion yn y byrdymor ac ymatebion uniongyrchol 18

Adeiladu gwydnwch hirdymor 20

Myfyrdodau **22**

Cydbwyso cyflymder a thargedu mewn ymatebion polisi 22

Ansicrwydd ynglŷn â'r gwrthdaro 23

Y dirwedd bolisi ehangach a rôl Llywodraeth Cymru 25

Cyfeirnodau **29**

Manylion am yr Awduron 31

Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau cyfarfod bord gron Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2026 gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a phanelwyr arbenigol i archwilio'r hyn sy'n dod i'r amlwg ac a allai fod yn bosibl o ran effaith rhyfel Iran ar Gymru.
- Mae'r effaith economaidd gyfanredol ar Gymru yn parhau i fod yn ansicr, a bydd yn dibynnu'n sylweddol ar hyd y tarfu a pharhad prisiau ynni uwch.
- Mae'r effeithiau ar aelwydydd yn anghyson. Mae rhai aelwydydd gwledig yn arbennig o fregus o ganlyniad i ddibyniaeth ar olew gwresogi a cherbydau preifat, tra bo aelwydydd ag anghenion ynni uchel yn wynebu pwysau ychwanegol. Mae gan aelwydydd incwm is lai o allu i amsugno costau hanfodol cynyddol, a allai ddwysáu tlodi ac anghydraddoldebau presennol.
- Mae busnesau a sefydliadau'r trydydd sector yn wynebu costau ynni, trafnidiaeth a gweithredu uwch. Efallai na fydd gan fusnesau bach a chanolig (BBaCh) ddigon o allu i amsugno'r costau cynyddol hyn, ac mae yna bryderon nad yw ymyraethau ledled y DU bob amser yn adlewyrchu anghenion busnesau Cymru.
- Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu costau cyflenwi cynyddol, mwy o alw a heriau posibl i wydnwch gwasanaethau. Mae chwyddiant yn lleihau gwir werth cyllidebau, tra gallai mwy o galedi ariannol gynyddu'r galw am gymorth iechyd, cymorth gofal cymdeithasol a chymorth arall.
- Mae ymatebion posibl yn y byrdymor yn cynnwys targedu cymorth i aelwydydd yn ôl incwm ac angen; hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a defnydd hyblyg o drydan; hyrwyddo cyfranogiad mewn cymorth sy'n symud oddi wrth wresogi â thanwyddau ffosil; a lleihau rhwystrau ariannol ac ymarferol i fuddsoddiad busnesau mewn ynni adnewyddadwy.
- Bydd gwydnwch tymor hwy yn gofyn am leihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil, yn cynnwys trwy drydaneiddio, ynni adnewyddadwy a chymunedol, cynllunio ynni yn seiliedig ar leoedd, a mesurau i gryfhau economïau a chymunedau lleol.
- Mae llawer o ddulliau allweddol yn parhau i fod y tu allan i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Felly, illiniaru effeithiau

uniongyrchol yr argyfwng a chryfhau gwydnwch hirdymor Cymru i siociau yn y dyfodol, mae'r meysydd posibl i Lywodraeth Cymru weithredu ynddynt yn cwmpasu defnyddio dulliau datganoledig, a gweithio gyda Llywodraeth y DU a chyrff eraill, gan ddylanwadu arnynt.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau a myfyrdodau allweddol o gyfarfod bord gron a gynhaliwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Gorffennaf 2026. Roedd y cyfarfod wedi dwyn ynghyd swyddogion Llywodraeth Cymru, ac wedi gwahodd panelwyr arbenigol i drafod yr hyn sy'n dod i'r amlwg a'r hyn a allai fod yn bosibl o ran effeithiau rhyfel Iran ar economi a chymdeithas Cymru; yr heriau y mae'r effeithiau hyn yn eu creu i lunwyr polisïau Cymru; ac ymatebion polisi posibl. Roedd cyflwyniadau wedi'u recordio ymlaen llaw gan y panelwyr arbenigol yn darparu tystiolaeth a safbwyntiau i lywio'r drafodaeth.

Cynhaliwyd y cyfarfod bord gron dan Reol Chatham House. Felly nid yw cyfraniadau a wnaed yn ystod y drafodaeth yn cael eu priodoli i gyfranogwyr unigol nac i'r sefydliadau yr oeddent yn eu cynrychioli. Lle bo hynny'n briodol, caiff tystiolaeth a dynnwyd o gyflwyniadau'r panelwyr a ffynonellau cyhoeddedig eraill ei phriodoli. Roedd y cyfarfod bord gron wedi dwyn ynghyd dystiolaeth ac arbenigedd i archwilio sut yr oedd effeithiau'r gwrthdaro yn cael eu profi yng Nghymru, y modd y gallai'r rhain ddatblygu, a'r ystyriaethau a ddeilliai ohonynt mewn perthynas â pholisi.

Cynhaliwyd y cyfarfod bord gron ym mis Gorffennaf 2026, ac felly roedd y drafodaeth yn adlewyrchu'r sefyllfa geowleidyddol ac economaidd, a'r dystiolaeth a oedd ar gael, ar yr adeg honno. Ers hynny, mae'r gwrthdaro a'i ganlyniadau economaidd wedi parhau i esblygu. Lle bo'n berthnasol, mae'r adroddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng y dystiolaeth a'r disgwyliadau adeg y cyfarfod bord gron a'r datblygiadau dilynol. Felly, dylid deall asesiadau a mesurau polisi sy'n sensitif i amser mewn perthynas â'r dyddiad y lluniwyd y dystiolaeth neu'r drafodaeth berthnasol.

Mae'r sylfaen dystiolaeth yn amrywio ar draws yr effeithiau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt. Lle bo'n bosibl, mae'r adroddiad yn tynnu ar dystiolaeth benodol i Gymru; lle bo hon yn gyfyngedig, defnyddir tystiolaeth a barn arbenigol ar lefel y DU i nodi goblygiadau posibl i Gymru, gan roi ystyriaeth i nodweddion economaidd, cymdeithasol a daearyddol sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r adroddiad yn gwahaniaethu rhwng effeithiau a oedd eisoes yn amlwg adeg y cyfarfod bord gron a risgiau posibl yn y dyfodol, risgiau sy'n parhau i fod yn ddarostyngedig i ansicrwydd ynghylch hyd a llwybr y gwrthdaro. Mae hyder ar ei uchaf ar union adeg trosglwyddo prisiau ynni uwch trwy gostau aelwydydd, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus; ceir mwy o ansicrwydd ynghylch graddfa a hyd yr effeithiau hyn, eu canlyniadau economaidd a chymdeithasol ehangach, a'r effeithiau a fyddai'n codi o ganlyniad i ddwysáu pellach.

Effeithiau ar Gymru

Mae'r gwrthdaro sy'n cynnwys yr Unol Daleithiau, Israel ac Iran wedi cael effeithiau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol yn fyd-eang, gan gynnwys yng Nghymru a'r DU ehangach. I Gymru, mae'r effeithiau economaidd mwyaf sylweddol wedi codi'n anuniongyrchol, yn enwedig trwy brisiau ynni a thanwydd uwch, pwysau chwyddiannol, costau uwch i fusnesau a gwasanaethau cyhoeddus, tarfiadau ar y gadwyn gyflenwi, ac ansicrwydd economaidd ehangach.

Mae graddfa a hyd posibl yr effeithiau hyn yn parhau i fod yn ansicr ac yn dibynnu'n sylweddol ar lwybr y gwrthdaro a'i effaith ar farchnadoedd ynni byd-eang. Adeg y cyfarfod bord gron ym mis Gorffennaf 2026, dangosodd dadansoddiad mis Ebrill 2026 Banc Lloegr y potensial ar gyfer effeithiau economaidd negyddol mwy byrhoedlog a mwy parhaus, fel ei gilydd, yn codi o siociau gwahanol mewn perthynas â phrisiau ynni (Banc Lloegr, 2026a). Yn yr un modd, ym mis Mawrth 2026, rhybuddiodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) am chwyddiant uwch a'r potensial i'r gwrthdaro gael effaith economaidd anghymesur ar y DU o gymharu ag economïau datblygedig eraill (OECD, 2026).

Mae dadansoddiad dilynol a gyhoeddwyd gan Fanc Lloegr ddiwedd mis Gorffennaf 2026 yn darparu asesiad wedi'i ddiweddaru o'r ansicrwydd hwn. Mae ei Adroddiad Polisi Ariannol ym mis Gorffennaf yn cyflwyno rhagamcaniad canolog ochr yn ochr â senarios mwy cymedrol ac andwyol, sy'n adlewyrchu rhagdybiaethau gwahanol am lwybr prisiau ynni byd-eang yn y dyfodol a'r graddau y mae'r sioc gychwynnol yn cynhyrchu effeithiau mwy parhaus ar gyflogau a phrisiau (Banc Lloegr, 2026b). Mae'r senario fwy cymedrol yn rhagdybio prisiau ynni ychydig yn is, elfen a fydd, yn fras, yn gyson â'r gwrthdaro'n tawelu'n barhaol a llai o anwadalrwydd o ran prisiau ynni. Mewn cyferbyniad, mae'r senario andwyol yn tybio y bydd prisiau olew a nwy yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r rhagamcaniad canolog trwy gydol y cyfnod rhagolygol, fel procsi ar gyfer y gwrthdaro'n parhau, a hynny o bosibl yn episodaidd a heb ddatrysiad eglur. O dan y senario hwn, mae chwyddiant yn parhau i fod yn uwch a gweithgarwch economaidd yn wannach nag o dan y rhagamcaniad canolog.

Mae'r senarios hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd hyd a pharhad y sioc ynni wrth bennu ei heffeithiau economaidd. Er eu bod yn ymwneud ag economi'r DU yn ei chyfanrwydd yn hytrach na Chymru'n benodol, maent yn darparu cyd-destun defnyddiol i ddeall y modd y gallai graddfa a hyd yr effeithiau a nodwyd yn y cyfarfod bord gron amrywio wrth i'r gwrthdaro ddatblygu.

Mae deall y modd y mae'r datblygiadau byd-eang hyn yn trosi i fod yn effeithiau yng nghyd-destun economaidd, cymdeithasol a daearyddol penodol Cymru yn bwysig i

lunwyr polisi Cymru. Mae gan Gymru nodweddion a allai gynyddu ei hamlygiad i rai agweddau ar y sioc, gan gynnwys ei daearyddiaeth wledig, patrymau defnydd ynni aelwydydd a phwysigrwydd diwydiannau ynni-ddwys. Ar yr un pryd, mae'r tlodi a'r pwysau presennol ar gyllid aelwydydd a gwasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar allu unigolion a chymunedau i amsugno cynnydd pellach mewn costau byw.

Mae hefyd yn ofynnol deall yr ymateb polisi posibl yng nghyd-destun datganoli a'r drefn rhannu cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan. Mae dulliau pwysig sy'n cael dylanwad ar yr effeithiau a ystyrir yn yr adroddiad hwn – yn cynnwys llesiant, rheoleiddio marchnadoedd ynni ac agweddau ar seilweithiau ynni mawr – yn parhau i fod wedi'u neilltuo i Lywodraeth y DU, tra bo cyfrifoldebau mewn meysydd megis cymorth cyflogaeth a pholisi ynni yn fwy cymhleth ac yn cwmpasu swyddogaethau datganoledig a neilltuedig. Serch hynny, mae gan Lywodraeth Cymru ddulliau sy'n berthnasol i liniaru rhai o'r effeithiau a chryfhau gwydnwch tymor hwy, ochr yn ochr â chyfleoedd i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU a chyrff perthnasol eraill, a gweithio gyda nhw. Caiff y materion hyn eu hystyried yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Mae'r adrannau canlynol yn ystyried yr effeithiau hyn yn eu tro, gan ddwyn ynghyd dystiolaeth a mewnwelediadau a rannwyd ag ymchwil bwrdd gwaith perthnasol cyn ac yn ystod y cyfarfod bord gron. Maent yn ystyried yr effaith economaidd ehangach cyn archwilio goblygiadau i aelwydydd, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus, gydag ymatebion polisi byrdymor a hirdymor posibl, ynghyd â myfyrdodau ehangach, a ddeilliodd o'r drafodaeth yn dilyn.

Yr effaith economaidd ehangach

Mae ansicrwydd ynghylch hyd a difrifoldeb yr argyfwng sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro, ac sy'n effeithio ar y cyflenwad ynni a'r fasnach fyd-eang, yn ei gwneud yn anodd rhagfynegi a meintioli ei effaith economaidd lawn. Serch hynny, roedd tystiolaeth a oedd ar gael adeg y cyfarfod bord gron yn dynodi bod y gwrthdaro eisoes yn effeithio ar brisiau ynni a chostau busnesau ledled y DU, tra bo rhagolygon a modelu economaidd yn tynnu sylw at effeithiau posibl ar weithgarwch economaidd a chyflogaeth. Mae graddfa a pharhad yr effeithiau ehangach hyn yn parhau i fod yn ansicr, a byddant yn dibynnu'n sylweddol ar lwybr parhaus y gwrthdaro a'r marchnadoedd ynni.

Cyfrannodd y dwysâd mewn tensiynau yn Iran ar ddechrau 2026 at gynnydd sydyn ym mhrisiau olew a nwy. Mae *Adroddiad Polisi Ariannol* Banc Lloegr ym mis Ebrill 2026 yn dangos, erbyn diwedd mis Ebrill, fod prisiau olew y dyfodol wedi codi o tua $64 i $100 y gasgen ers ei ragolygon ym mis Chwefror, tra bo prisiau nwy cyfanwerth y dyfodol yn y DU wedi cynyddu tua 37% (Banc Lloegr, 2026a). Mae dadansoddiad

gan Kaya (2026) yn awgrymu y gallai'r DU fod yn arbennig o agored i sioc a ysgogir gan ynni oherwydd ei balansau allanol cymharol wan, sy'n cynyddu ei hamlygiad i ddirywiad yn nhermau masnach a phwysau cyfraddau cyfnewid pan fydd costau ynni mewnforiedig yn codi. Gwaethygir y bregusrwydd hwn gan lefelau storio nwy isel, a oedd wedi gostwng i lefelau tebyg i'r rhai a gofnodwyd ar ddechrau rhyfel Rwsia-Wcráin yn 2022 (Kaya, 2026). Mae *Adroddiad Polisi Ariannol* mis Ebrill yn dynodi y gallai prisiau ynni uwch effeithio'n uniongyrchol ar yr economi trwy gostau tanwydd a chyfleustodau uwch i aelwydydd, yn anuniongyrchol trwy gostau uwch i fusnesau a chadwyni cyflenwi, ac o ganlyniad i alw gwannach wrth i gostau ynni mewnforiedig uwch leihau incymau real. Mae graddfa'r effeithiau hyn yn dibynnu'n sylweddol ar faint a pharhad prisiau ynni uwch.

Adeg y cyfarfod bord gron ym mis Gorffennaf, roedd y pwysau hyn eisoes yn amlwg yng nghostau tanwydd a disgwyliadau busnesau. Erbyn canol mis Mai, roedd pris cyfartalog diesel wedi cyrraedd £1.87 y litr, sef cynnydd o 32% o gymharu â'r cyfnod cyn i ryfel Iran ddechrau (Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, 2026). Canfu arolwg gan y SYG ym mis Gorffennaf o 10,000 o fusnesau ar draws ystod o ddiwydiannau'r DU, ac a gyhoeddwyd cyn y cyfarfod bord gron, fod 31% o fusnesau a chanddynt 10 neu fwy o weithwyr yn pryderu y gallai gwrthdaro rhyngwladol effeithio ar eu cadwyni cyflenwi yn ystod y flwyddyn ganlynol. Er bod hyn wedi gostwng o 38% ym mis Ebrill, roedd yn parhau i fod yn sylweddol uwch na blwyddyn ynghynt (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2026a).

Mae'r rhagolygon sydd ar gael yn awgrymu y gallai'r pwysau hyn gyfrannu at gyflogaeth a gweithgarwch economaidd gwannach, er bod amcangyfrifon yn sensitif i ragdybiaethau ynghylch hyd a difrifoldeb y gwrthdaro. Mae dadansoddiad 2026 Clwb ITEM yn rhag-weld gostyngiad net o oddeutu 163,000 o swyddi ledled y DU yn ystod 2026, sy'n cyfateb i ostyngiad o 0.4% mewn cyflogaeth ac yn adlewyrchu costau ynni a mewnbynnau eraill uwch, tarfiad ar gadwyni cyflenwi, a gwariant defnyddwyr gwannach (Clwb ITEM, 2026). Mae'r dadansoddiad yn rhag-weld effeithiau neilltuol o sylweddol mewn rhanbarthau incwm is a diwydiannol, yn cynnwys De Cymru, lle rhagwelir y bydd cyflogaeth yn gostwng tua 5,700 yn ystod 2026. Noda fod cysylltiad De Cymru â gweithgynhyrchu ac adeiladu yn ffynhonnell bwysig o fregusrwydd yn wyneb costau ynni a mewnbynnau uwch. Ffigurau a ragwelir yw'r rhain yn hytrach nag unrhyw golledion mewn swyddi a welwyd, a byddant yn dibynnu ar y modd y mae'r amodau economaidd a'r gwrthdaro yn datblygu.

Gall effeithiau'r gwrthdaro hefyd gael eu trosglwyddo trwy fasnach ryngwladol. Adroddodd cyfranogwyr y cyfarfod bord gron fod rhai cwmnïau yng Nghymru eisoes yn cael anawsterau o ran cael nwyddau i farchnadoedd y Gwlff, a'u bod yn wynebu costau uwch. O ystyried pwysigrwydd y Gwlff fel marchnad allforio i Gymru, roedd cyfranogwyr o'r farn y gallai tarfu hir effeithio ar hyfywedd y cwmnïau mwyaf agored

iddo ac, o bosibl, ar gyflogaeth. Mae'r dystiolaeth hon yn adlewyrchu profiad sy'n dod i'r amlwg ym myd busnes, a barn arbenigol o'r cyfarfod bord gron, yn hytrach na'i bod yn asesiad meintiol o'r effaith gyffredinol ar fasnach Cymru.

Mae'r senarios a gyflwynwyd yn *Adroddiad Polisi Ariannol* mis Ebrill 2026 Banc Lloegr yn dangos ymhellach sensitifrwydd yr effeithiau economaidd ehangach i hyd y tarfu, parhad y prisiau ynni uwch, a'r graddau y mae'r rhain yn bwydo i mewn i brosesau gosod prisiau a chyflogau ehangach. Senarios darluniadol ydynt yn hytrach na rhagolygon o'r canlyniad mwyaf tebygol (Banc Lloegr, 2026a). Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd trin amcangyfrifon unigol wedi'u modelu yn rhai sy'n amodol ar eu rhagdybiaethau sylfaenol.

Mae'r gwaith dadansoddi a wnaed gan Millard (2026) i lywio'r drafodaeth yn y cyfarfod bord gron yn darparu awgrym darluniadol o'r goblygiadau posibl i economi Cymru. Mewn senario lle mae prisiau olew a nwy yn parhau i fod tua thraean yn uwch trwy gydol 2026, amcangyfrifir bod cynnyrch domestig gros Cymru oddeutu 0.15% yn is nag y byddai wedi bod pe na bai'r sioc ynni sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro wedi digwydd. Yn y senario hwn, disgwylir i'r effaith gyrraedd uchafbwynt ddiwedd 2026 neu ddechrau 2027, sy'n dynodi y gallai'r canlyniadau economaidd barhau hyd yn oed os bydd y tarfu gwreiddiol ar farchnadoedd ynni yn dechrau tawelu. Senario darluniadol wedi'i fodelu yn hytrach na rhagolwg o'r canlyniad mwyaf tebygol yw hwn, ac mae ei oblygiadau yn dibynnu ar barhad tybiedig prisiau ynni uwch.

Mae Adroddiad Polisi Ariannol mis Gorffennaf 2026 Banc Lloegr, a gyhoeddwyd yn dilyn y cyfarfod bord gron, yn nodi bod rhai o'r pwysau uniongyrchol yn y farchnad ynni wedi lleddfu erbyn ei gyhoeddi, yn enwedig yn achos olew, ond bod ansicrwydd sylweddol yn parhau (Banc Lloegr, 2026b). Roedd prisiau olew y dyfodol yn sylweddol is na'r lefelau sy'n sail i adroddiad mis Ebrill, tra bo prisiau nwy yn parhau i fod yn uchel o gymharu â'u lefelau cyn y gwrthdaro. Mae adroddiad mis Gorffennaf yn rhag-weld effeithiau anuniongyrchol o ganlyniad i gostau ynni uwch yn bwydo trwy gadwyni cyflenwi yn ystod gweddill 2026, ac mae hefyd yn nodi tystiolaeth gymharol gyfyngedig bryd hynny o effeithiau ail rownd sylweddol ar gyflogau a phrisiau. Mae'r dystiolaeth ddilynol hon yn darparu peth awgrym fod y sioc yn datblygu mewn modd llai andwyol na'r posibiliadau mwy difrifol y rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn gynharach yn y flwyddyn, tra bo risgiau sylweddol o darfiad newydd neu estynedig yn parhau.

O'i rhoi at ei gilydd, mae'r dystiolaeth a adolygwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn awgrymu bod y sioc prisiau ynni wedi cael ei throsglwyddo ledled yr economi trwy gostau uwch i aelwydydd a busnesau, pwysau chwyddiannol, incymau real gwannach, a tharfu posibl ar gadwyni cyflenwi a masnach. Mae'r rhagamcaniadau sydd ar gael yn dangos y gallai'r pwysau hyn gyfrannu at weithgarwch economaidd a

chyflogaeth gwannach, er bod graddfa'r effeithiau hyn yn parhau i fod yn ansicr. Efallai y bydd Cymru'n arbennig o agored mewn ardaloedd â chrynodiadau o weithgarwch gweithgynhyrchu ac adeiladu, a gweithgarwch ynni- neu fewnbwn-ddwys arall, tra bo tarfu ar y fasnach ryngwladol yn cynrychioli sianel bosibl arall a nodwyd yn y cyfarfod bord gron. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth yn caniatáu i'r effaith gyfanredol ar allbwn, cyflogaeth neu allforion Cymru gael ei meintioli mewn modd hyderus. Mae tystiolaeth ddilynol yn darparu rhywfaint o sicrwydd bod pwysau uniongyrchol y farchnad ynni ar y DU wedi lleddfu erbyn mis Gorffennaf, ond mae graddfa a hyd yr effaith economaidd ehangach yn parhau i fod yn ddibynnol yn arbennig ar lwybr y gwrthdaro a pharhad prisiau ynni uchel. Mae'r adrannau canlynol yn archwilio'r goblygiadau i aelwydydd, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus mewn mwy o fanylder.

Effaith ar aelwydydd

Roedd tystiolaeth a mewnwelediadau a rannwyd cyn ac yn ystod y cyfarfod bord gron yn tynnu sylw at sawl sianel lle mae'r gwrthdaro wedi cynyddu pwysau ariannol ar aelwydydd yng Nghymru a lle gallai barhau i wneud hynny. Yn fwyaf uniongyrchol, mae prisiau ynni byd-eang uwch wedi bwydo trwodd i gostau ynni domestig a thrafnidiaeth. Ddiwedd mis Mai 2026, cyhoeddodd Ofgem y byddai'r cap ar brisiau ynni yn codi 13% o fis Gorffennaf 2026 (Ofgem, 2026), sy'n golygu cynnydd o fwy na £200 yn y bil ynni blynyddol ar gyfer aelwyd gyffredin yn y DU.

Gallai'r pwysau ynni uniongyrchol hwn gael ei waethygu fwyfwy gan brisiau bwyd uwch. Erbyn mis Ebrill 2026, nododd tystiolaeth arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol gynnydd ym mhrisiau siopa bwyd (92%) ac mewn biliau nwy neu drydan (60%) ymhlith y rhesymau dros gynnydd mewn costau byw yr adroddir amdanynt amlaf (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2026b). Er nad oes rhagamcaniadau penodol i Gymru ar gael, mae tystiolaeth o sector bwyd y DU yn dangos y potensial ar gyfer chwyddiant o tua 9-10% ym mhrisiau bwyd erbyn diwedd 2026, a hynny yn erbyn cefndir lle mae prisiau bwyd eisoes bron i 40% yn uwch nag yn gynnar yn 2020 (Y Ffederasiwn Bwyd a Diod, 2026). Mae'r dystiolaeth hon ar lefel y DU yn rhoi arwydd o'r pwysau posibl sy'n wynebu aelwydydd yng Nghymru, er bod graddfa unrhyw gynnydd yn parhau i fod yn ansicr. Yn yr un modd, mae Millard (2026) yn nodi prisiau bwyd fel maes ansicrwydd pwysig oherwydd cyfaint y grawn a'r gwrtaith a gludir trwy Gulfor Hormuz, gan nodi ar adeg ei ddadansoddiad fod yr effaith ar brisiau bwyd wedi bod yn llai nag y gellid bod wedi ei ddisgwyl, ond y gallasent godi ymhellach yn ystod 2026.

Gyda'i gilydd, mae'r pwysau hyn yn dangos y modd y mae tarfu ar farchnadoedd ynni a nwyddau byd-eang yn bwydo trwodd i gostau byw aelwydydd, yn enwedig trwy

brisiau ynni, trafnidiaeth a bwyd uwch. Fodd bynnag, ni fydd yr effaith wedi'i dosbarthu'n gyfartal. Roedd tystiolaeth a mewnwelediadau o'r cyfarfod bord gron wedi pwysleisio'n arbennig fregusrwydd dau grŵp sy'n gorgyffwrdd: aelwydydd y mae eu lleoliad gwledig, eu defnydd o danwydd neu eu gofynion ynni yn golygu eu bod yn fwy agored i gostau ynni cynyddol; ac aelwydydd incwm is, sydd â llai o allu ariannol i amsugno cynnydd yng nghost hanfodion.

Effaith anghymesur ar aelwydydd gwledig ac aelwydydd ag anghenion ynni uchel

Roedd tystiolaeth a mewnwelediadau a rannwyd cyn ac yn ystod y cyfarfod bord gron wedi pwysleisio bregusrwydd anghymesur rhai aelwydydd gwledig, ochr yn ochr ag aelwydydd ag anghenion ynni uchel, yn wyneb prisiau ynni cynyddol.

Mae Cymru'n wynebu gwendidau penodol sy'n gysylltiedig â'i phoblogaeth wledig a'i phatrymau o ddefnyddio ynni. Mae tua 7% o aelwydydd Cymru yn dibynnu ar olew gwresogi, ac mae'r crynodiadau'n arbennig o uchel mewn siroedd megis Ceredigion a Phowys. Mae'r aelwydydd hyn yn uniongyrchol agored i symudiadau ym mhrisiau olew, ac roedd prisiau olew gwresogi bron wedi dyblu yn ystod y gwanwyn. Yn yr un modd, nododd cyfranogwyr y cyfarfod bord gron fod aelwydydd sy'n dibynnu ar nwy ac olew yn rhai arbennig o agored i gostau ynni cynyddol. Mewn cyferbyniad, roedd cyfranogwyr o'r farn bod aelwydydd sy'n defnyddio systemau gwresogi trydanol, paneli solar neu dechnolegau carbon isel eraill yn gymharol llai agored i'r cynnydd diweddar ym mhrisiau tanwyddau ffosil, gyda'u biliau trydan wedi codi llai, yn gymesur, na chostau tanwyddau eraill. Mae hyn yn amlygu'r modd y gall ffynonellau gwresogi ac ynni aelwydydd lunio eu hamlygiad i anwadalrwydd prisiau ynni rhyngwladol.

Gall gwledigrwydd gynyddu'r amlygiad hwn ymhellach trwy gostau trafnidiaeth. Pwysleisiodd cyfranogwyr fod mwy o ddibyniaeth ar gerbydau preifat mewn llawer o gymunedau gwledig yn golygu y gall cynnydd ym mhrisiau petrol a diesel roi pwysau ychwanegol ar gyllidebau aelwydydd. Yn yr un modd, mae Millard (2026) yn dadlau, o ystyried cymeriad gwledig llawer o Gymru, fod costau trafnidiaeth cynyddol yn debygol o gael effaith neilltuol o sylweddol ar aelwydydd a busnesau Cymru. Felly yn achos yr aelwydydd hynny y mae eu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig neu y maent yn gorfod teithio pellteroedd hirach i gyflogaeth a gwasanaethau hanfodol, gall y costau hyn waethygu'r cynnydd mewn gwariant ar ynni domestig.

Pwysleisiodd cyfranogwyr y cyfarfod bord gron hefyd fod bregusrwydd yn wyneb cynnydd mewn prisiau ynni yn cael ei bennu gan yr angen am ynni, yn ogystal â'r math o danwydd neu'r ddaearyddiaeth. Mynegwyd pryderon neilltuol am aelwydydd sy'n cynnwys pobl anabl neu bobl â chyflyrau iechyd y mae cyfarpar meddygol ynni-ddwys yn ofynnol ar eu cyfer, yn ogystal â theuluoedd mwy ac aelwydydd â phlant. Nid yw gofynion ynni uwch o reidrwydd yn cyfateb i incwm uwch, sy'n golygu y gall yr aelwydydd hyn fod mewn mwy o berygl o ddioddef o dlodi tanwydd pan fydd prisiau'n codi. Mynegodd cyfranogwyr bryder arbennig ynghylch gaeaf 2026-27, pan allai'r angen i gynnal aelwydydd ar dymheredd digonol ddwysáu'r pwysau hyn. Yn ogystal, roedd y drafodaeth wedi tynnu sylw at y ffaith y gallai'r aelwydydd hynny sydd fwyaf agored i gynnydd mewn prisiau tanwydd ffosil hefyd fod wedi'u cyfyngu fwyaf o ran y modd sydd ganddynt i newid eu systemau gwresogi. Gall costau gosod ymlaen llaw fod yn rhwystr sylweddol, tra gall rheolaeth aelwydydd sy'n byw mewn llety rhent dros benderfyniadau ynghylch systemau gwresogi fod yn gyfyngedig. Mae hyn yn creu anghysondeb posibl rhwng amlygiad i siociau prisiau ynni a'r gallu i leihau'r amlygiad hwnnw trwy fuddsoddiad mewn dulliau gwresogi amgen.

Mae'r pryderon hyn yn gyson â chanfyddiadau blaenorol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (Hill et al., 2024), a nododd fod aelwydydd â phlant, y rhai sy'n byw mewn llety rhent, a'r rhai sydd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn neilltuol o agored i effeithiau cartrefi oer. Mae amcangyfrifon tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dynodi bod yna fregusrwydd sylweddol eisoes yn bodoli yn wyneb costau ynni uwch aelwydydd. Awgrymodd amcangyfrifon ar gyfer mis Hydref 2024 fod tua 25% o aelwydydd yng Nghymru yn dioddef o dlodi tanwydd, gyda'r ganran honno'n codi i oddeutu 83% ymhlith aelwydydd incwm is (Llywodraeth Cymru, 2025). Mae'r amcangyfrifon hyn yn dyddio i'r cyfnod cyn gwrthdaro Iran ac felly dylid deall mai tystiolaeth o fregusrwydd sylfaenol aelwydydd Cymru ydynt, yn hytrach nag effaith y sylwyd arni o ganlyniad i'r sioc bresennol.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod amlygiad i'r sioc ynni bresennol yn cael ei llunio gan gyfuniad o ddaearyddiaeth, tai a systemau gwresogi, dibyniaeth ar drafnidiaeth, a lefelau anochel o ran y defnydd o ynni. Felly, pwysleisiodd cyfranogwyr y dylid targedu mesurau cymorth y dyfodol yn ôl incwm ac angen. Mae dull sy'n seiliedig ar incwm yn unig yn golygu bod yna risg o anwybyddu aelwydydd y mae eu gofynion ynni anochel yn golygu eu bod yn arbennig o fregus yn wyneb cynnydd mewn prisiau, a hynny hyd yn oed lle na fyddent fel arall yn cael eu nodi'n aelwydydd ar yr incwm isaf.

Effaith anghymesur ar aelwydydd incwm isel

Er bod rhai aelwydydd yn fwy agored i gostau cynyddol oherwydd eu lleoliad, eu defnydd o danwydd neu eu hanghenion ynni, mae gan incwm ddylanwad cryf ar y

gallu i amsugno'r cynnydd hwn. Roedd tystiolaeth a mewnwelediadau a rannwyd cyn ac yn ystod y cyfarfod bord gron yn amlygu'n gyson fod aelwydydd incwm is yn arbennig o fregus yn wyneb effeithiau cyfunol y cynnydd mewn prisiau bwyd ac ynni.

Mae aelwydydd incwm is yn gwario cyfran uwch o'u hincwm ar hanfodion megis bwyd ac ynni, sy'n golygu bod y posibilrwydd iddynt amsugno'r cynnydd mewn prisiau neu leihau gwariant ar bethau eraill yn llai. Felly, mae Millard (2026) yn dod i'r casgliad bod y chwyddiant uwch sy'n deillio o'r gwrthdaro yn debygol o gael effaith fwy difrifol ar aelwydydd tlotach nag aelwydydd cyfoethog. Adlewyrchwyd hyn yn gadarn yn nhrafodaeth y cyfarfod bord gron. Fel y nododd un panelydd arbenigol, 'nid anghyfleustra ond argyfwng' yw prisiau bwyd ac ynni cynyddol i aelwydydd incwm isel (Turkmen, 2026). Gall cynnydd mewn costau hanfodol olygu bod cyllidebau cyfyngedig aelwydydd bellach dan fwy o bwysau, gan gynyddu'r risg o galedi materol a dibyniaeth ar fanciau bwyd a mathau eraill o gymorth argyfwng.

Yng nghyd-destun y tlodi presennol yng Nghymru, mae'r pwysau hwn yn peri pryder neilltuol. Er bod tlodi incwm cymharol cyffredinol wedi aros yn gymharol sefydlog ar oddeutu 22% (Llywodraeth Cymru, 2026), mynegodd panelwyr arbenigol bryderon ynghylch dyfnder y tlodi a goblygiadau cynnydd pellach mewn costau byw hanfodol i bobl sydd eisoes yn profi caledi ariannol. Gallai'r sioc prisiau bresennol felly ddyfnhau tlodi presennol hyd yn oed heb newid cyfran gyffredinol y bobl a ddosberthir yn rhai sy'n byw mewn tlodi. Lleisiodd cyfranogwyr bryderon hefyd ynghylch y canlyniadau i ansawdd bywyd ac iechyd pobl gan ei bod yn ofynnol i aelwydydd sy'n wynebu cyllidebau cynyddol gyfyngedig wneud dewisiadau anodd rhwng gwariant hanfodol.

Gall y gallu i amsugno sioc bellach hefyd ddibynnu ar gynilion ac asedau eraill aelwydydd, yn ogystal â'u hincwm. Ystyriodd trafodaeth y cyfarfod bord gron pa un a allai arbedion ddarparu clustog fyrdymor yn erbyn costau byw uwch, ac a oedd y capasiti hwn eisoes wedi'i erydu gan bwysau costau byw blaenorol. Felly, gall gwydnwch ariannol amrywio nid yn unig yn ôl incwm ond hefyd yn ôl cyfoeth cronedig a'r graddau y mae gan aelwydydd adnoddau ar gael i ddelio â chynnydd annisgwyl mewn costau hanfodol.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y sioc ynni a phrisiau sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro mewn perygl o waethygu'r anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol presennol yng Nghymru. Er bod costau bwyd, ynni a thrafnidiaeth cynyddol yn effeithio ar aelwydydd ar draws y dosbarthiad incwm, mae gallu aelwydydd incwm is i'w hamsugno yn llawer llai. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd targedu cymorth yn y dyfodol at y rhai y mae'r sioc sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro yn effeithio arnynt fwyaf. Fel y trafodwyd uchod, mae hyn yn golygu nid yn unig ystyried incwm aelwydydd ond hefyd lefelau o ran angen anochel am ynni, a

hynny fel bod cymorth yn cyrraedd yr aelwydydd sy'n profi'r pwysau ariannol mwyaf ac sydd fwyaf agored i gostau hanfodol cynyddol.

Nododd y drafodaeth hefyd risg ehangach bosibl i gydlyniant cymdeithasol. Roedd cyfranogwyr o'r farn y gallai cynnydd parhaus yng nghost hanfodion, ochr yn ochr â thensiynau geowleidyddol ehangach, gyfrannu at fwy o densiwn a rhaniadau o fewn cymunedau. Roedd yna bryder y gallai effeithiau o'r fath atgyfnerthu anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol presennol ac effeithio ar lesiant a chyfleoedd bywyd ehangach. Ystyrid bod y risgiau hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus sy'n dal i adfer o bandemig COVID-19.

Effaith ar fusnesau

Tynnodd tystiolaeth a mewnwelediadau a rannwyd cyn ac yn ystod y cyfarfod bord gron sylw at y pwysau sylweddol y mae costau ynni a gweithredu uwch yn ei roi ar fusnesau, a mynegwyd pryderon penodol am allu cwmnïau llai a sectorau ynni-ddwys i amsugno'r cynnydd hwn.

Mae ymchwil bwrdd gwaith yn awgrymu bod cwmnïau ledled y DU yn ymateb i'r sioc ynni trwy gyfuno cynnydd mewn prisiau â lleihau ffin eu helw i amsugno costau uwch (Bunn et al., 2026). Er nad oes tystiolaeth gyfatebol benodol ar gael ar gyfer Cymru o ran ymatebion cwmnïau, gall y pwysau hwn fod yn arbennig o sylweddol yng Nghymru o ystyried cyfansoddiad economi Cymru. Mae dadansoddiad gan Millard (2026) yn tynnu sylw at y ffaith bod diwydiant Cymru'n fwy agored i brisiau ynni uwch, gan adlewyrchu'r gyfran uwch o swyddi sydd ym maes gweithgynhyrchu yng Nghymru o gymharu â mannau eraill yn y DU. Mae pwysau penodol yn cael ei nodi'n ogystal ar gyfer sectorau megis dur ac awyrofod, gydag awyrofod nid yn unig yn destun effeithiau costau tanwydd uwch ond hefyd effeithiau tarfiad ar gadwyni cyflenwi a chostau yswiriant uwch.

Tynnodd cyfranogwyr y cyfarfod bord gron sylw arbennig at sefyllfa busnesau bach a chanolig (BBaChau), sy'n cyfrif am gyfran fawr o fusnesau Cymru. Efallai na fydd gan fusnesau llai gymaint o allu i amsugno cynnydd parhaus mewn costau gweithredu, sy'n ysgogi pryderon ynghylch eu gwydnwch yn wyneb cyfnod hir o gostau ynni a mewnbynnau uwch, a'r canlyniadau posibl i economïau lleol. Gall amseriad a graddfa'r pwysau hefyd amrywio yn ôl trefniadau prynu ynni presennol busnesau, gyda rhai o bosibl yn dod yn fwy bregus wrth i'r contractau presennol ddod i ben. At hyn, nododd y cyfranogwyr y gallai cyrhaeddiad rhai o ymyraethau Llywodraeth y DU, ac iddynt y nod o gefnogi busnesau, fod yn gyfyngedig yng Nghymru oherwydd eu meini prawf cymhwysedd neu eu dyluniad, elfen a allai fod yn arbennig o bwysig o ystyried pwysigrwydd busnesau bach a chanolig i economi Cymru.

Nododd cyfranogwyr hefyd enghreifftiau o'r modd y mae costau uwch eisoes yn effeithio ar benderfyniadau busnes yng Nghymru. Adroddwyd bod costau trafnidiaeth cynyddol yn rhoi pwysau arbennig ar ffermwyr llaeth Cymru sydd wedi'u lleoli bellaf o safleoedd prosesu yn Lloegr, gan gyfrannu at benderfyniadau i beidio ag adnewyddu rhai contractau cyflenwi. Mae hyn yn amlygu'r modd y gall effeithiau prisiau ynni uwch estyn y tu hwnt i ddefnydd uniongyrchol busnesau o ynni, gyda chostau trafnidiaeth a daearyddiaeth cadwyni cyflenwi yn creu pwysau ychwanegol i rai cwmnïau yng Nghymru. Ystyrid yr enghraifft hefyd yn arwydd o wendidau ehangach mewn cadwyni cynhyrchu a chyflenwi bwyd, lle mae ffiniau elw tyn yn golygu y gall cynnydd cymharol fach yng nghostau trafnidiaeth a mewnbynnau eraill wneud trefniadau cyflenwi presennol yn anhyfyw. Felly, gellid teimlo effeithiau'r gwrthdaro nid yn unig trwy brisiau bwyd uwch, ond hefyd trwy bwysau ar wydnwch a hyfywedd prosesau cynhyrchu bwyd domestig.

Nodwyd pwysau tebyg ymhlith sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, yr amlygodd cyfranogwyr eu bod yn chwarae rhan bwysig o ran cynnal gwydnwch cymunedol yn ystod cyfnodau lle ceir tarfu. Gall cynnydd mewn costau ynni a chostau gweithredu eraill roi straen ychwanegol ar gyllidebau sydd eisoes yn gyfyngedig, tra gall costau teithio uwch effeithio ar allu gwirfoddolwyr i gyfranogi. Gallai hyn leihau gallu sefydliadau i ymateb ar adeg pan allai'r galw am eu gwasanaethau fod yn cynyddu.

Effaith ar wasanaethau cyhoeddus

Tynnodd tystiolaeth a mewnwelediadau o'r cyfarfod bord gron sylw at bwysau ar wasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i alw cynyddol a chostau darparu uwch. Er bod y dystiolaeth bwrdd gwaith a adolygwyd ar gyfer y gwaith hwn yn fwy cyfyngedig yn y maes hwn, nododd cyfranogwyr sawl ffordd y gallai'r sioc bresennol ddwysáu'r pwysau presennol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig lle bo caledi ariannol, pwysau ar y gweithlu a chostau gweithredu cynyddol yn rhyngweithio.

Gallai gwaethygiad mewn caledi ariannol ac amddifadedd gynyddu'r galw am gymorth iechyd, gofal cymdeithasol, gofal plant, a mathau eraill o gymorth cyhoeddus a chymunedol. Ar yr un pryd, mae chwyddiant uwch yn lleihau pŵer prynu y cyllidebau sector cyhoeddus hynny sydd wedi'u gosod ymlaen llaw yn nhermau arian parod. Yn yr un modd, mae dadansoddiad gan Millard (2026) yn dangos bod chwyddiant uwch yn lleihau gwerth real gwariant Llywodraeth Cymru, sy'n golygu y bydd lefel benodol o wariant nominal yn cefnogi lefel is o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. O'r herwydd, efallai y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu'r her gyfunol o ymateb i fwy o angen a hwythau â llai o bŵer gwario mewn termau real.

Tynnodd y drafodaeth sylw at ofal plant fel un maes lle gallai'r pwysau hwn arwain at ganlyniadau ehangach. Gallai costau ynni a gweithredu cynyddol roi pwysau pellach ar ddarparwyr gofal plant sydd eisoes yn gweithredu ar ffiniau tyn, gan gynyddu costau i deuluoedd neu effeithio ar fynediad at ddarpariaeth. Yn ei dro, gallai llai o fynediad at ofal plant fforddiadwy effeithio ar allu rhieni i fynd i mewn i'r farchnad lafur neu aros ynddi, gan arwain at ganlyniadau posibl i incwm aelwydydd a thlodi plant, yn enwedig ymhlith teuluoedd â phlant iau. Mae hyn yn amlygu sut y gall pwysau ar wasanaethau unigol arwain at effeithiau economaidd a chymdeithasol ehangach.

Mae prisiau ynni a thanwydd uwch hefyd yn arwain yn uniongyrchol at gynyddu costau darparu rhai gwasanaethau. Tynnodd cyfranogwyr y cyfarfod bord gron sylw arbennig at wasanaethau cymunedol, yn cynnwys nyrsio cymunedol a gofal cymdeithasol, lle efallai y bydd angen i weithwyr ddefnyddio eu cerbydau eu hunain i ymweld â chleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Felly, gall prisiau cynyddol petrol a diesel gynyddu'r costau personol y mae gweithwyr rheng flaen yn eu hwynebu, yn ogystal â'r costau ehangach sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau ar draws cymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Roedd pryderon yn estyn y tu hwnt i gost ariannol tanwydd i wydnwch gwasanaethau hanfodol yn achos tarfiad i’r cyflenwad. Cyfeiriodd cyfranogwyr at y gofynion ar rai gwasanaethau i gynnal cyflenwad tanwydd deg diwrnod, a all ei hun greu pwysau ariannol ychwanegol. Yn achos tarfiad, gallai cwestiynau pellach godi ynghylch pa weithwyr y dylid eu trin yn rhai hanfodol, sut y dylid cefnogi teithio hanfodol, a sut y dylai cyflenwadau tanwydd cyfyngedig gael eu blaenoriaethu ymhlith gwasanaethau. Gallai'r materion hyn ddatblygu i fod yn neilltuol o acíwt yn ystod y gaeaf, pan fydd y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn debygol o gynyddu.

Yn gyffredinol, gallai'r sioc sy'n gysylltiedig â’r gwrthdaro roi pwysau o sawl cyfeiriad ar yr un pryd ar wasanaethau cyhoeddus: galw cynyddol sy'n gysylltiedig â chaledi ariannol; lleihau gwerth real y cyllidebau sydd ar gael; cynyddu costau gweithredu a chostau’r gweithlu; a chreu heriau posibl i barhad gwasanaethau hanfodol os ceir tarfu ar gyflenwadau tanwydd. Pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd ystyried y pwysau hyn ar y cyd, yn enwedig gan y gallai galw uwch y gaeaf waethygu pwysau ariannol a phwysau ar y gweithlu sydd eisoes mewn bod.

Ymatebion polisi

Trafododd y cyfranogwyr ystod o ymatebion polisi posibl, gan wahaniaethu rhwng mesurau a allai helpu i liniaru pwysau uniongyrchol, a gweithredu tymor hwy i gryfhau gwydnwch Cymru yn wyneb siociau yn y dyfodol. Roedd y drafodaeth hon yn cydnabod bod dulliau pwysig sy'n effeithio ar lesiant, marchnadoedd ynni a pholisi macroeconomaidd ehangach yn parhau i fod wedi'u neilltuo i Lywodraeth y DU. Ar yr un pryd, nododd tystiolaeth a rannwyd cyn ac yn ystod y cyfarfod bord gron gyfleoedd i weithredu o fewn cyfrifoldebau datganoledig, yn ogystal â chyfleoedd i Lywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU a chyrff eraill i ddylanwadu ar feysydd y tu allan i'w rheolaeth uniongyrchol.

Ymatebion yn y byrdymor ac ymatebion uniongyrchol

Yn y byrdymor, pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd targedu cymorth at yr aelwydydd hynny sy'n wynebu'r pwysau mwyaf, yn enwedig aelwydydd incwm is a'r rhai a chanddynt anghenion ynni uchel neu anochel. Fel y trafodwyd uchod, mae nodi'r aelwydydd hyn mewn modd effeithiol yn golygu heriau ymarferol. Pwysleisiodd y cyfranogwyr nad diffyg dealltwriaeth o'r nodweddion sy'n gysylltiedig â bregusrwydd yw'r prif gyfyngiad o reidrwydd, ond y gallu i nodi aelwydydd unigol â manwl gywirdeb digonol i dargedu cymorth. Nid yw'r data presennol yn dwyn gwybodaeth am incwm, amgylchiadau aelwydydd, yr angen am ynni, anabledd, iechyd a thai at ei gilydd yn rhwydd, nac mewn ffordd a all gefnogi ymyrraeth dargededig. Felly gallai gwella prosesau cysylltu data a galluogrwydd gweinyddol helpu i alluogi cymorth i gyrraedd y rhai yr effeithir arnynt fwyaf.

Ochr yn ochr â chymorth ariannol uniongyrchol, tynnodd tystiolaeth a thrafodaeth sylw at gyfleoedd i leihau defnydd ynni aelwydydd a'u hamlygiad i brisiau tanwydd ffosil uchel cyn gaeaf 2026-27. Mae Sissons (2026) yn nodi mesurau effeithlonrwydd ynni cymharol isel eu cost yn un flaenoriaeth uniongyrchol, ochr yn ochr â mwy o ddefnydd o dariffau trydan hyblyg sy'n galluogi aelwydydd i symud y defnydd ynni oddi wrth gyfnodau brig. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol o ystyried bod prisiau trydan wedi codi mewn modd mwy cymedrol na phrisiau olew a nwy yn ystod yr argyfwng presennol. Felly gallai cefnogi aelwydydd i ddefnyddio trydan mewn modd mwy hyblyg helpu i leihau costau yn y byrdymor, gan ar yr un pryd gyfrannu at newidiadau tymor hwy yn y defnydd o ynni.

Ystyriodd cyfranogwyr hefyd pa un a allai rhai mesurau effeithlonrwydd ynni gael eu cyflawni'n uniongyrchol yn hytrach na bod yna ddibyniaeth lwyr ar gymorth incwm aelwydydd. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth am gaffael gyda chymorth y llywodraeth neu gaffael swmp yn achos mesurau â chostau cymharol isel a allai

leihau defnydd aelwydydd o ynni. Gallai dulliau o'r fath ategu cymorth seiliedig ar arian parod, yn enwedig lle mae costau ymlaen llaw, fel arall, yn atal aelwydydd rhag cymryd camau i leihau eu defnydd o ynni.

Mae yna hefyd gyfle uniongyrchol i gyflymu prosesau pontio aelwydydd oddi wrth wresogi â thanwydd ffosil, yn enwedig ymhlith y rhai sydd fwyaf agored i brisiau olew. Mae Sissons (2026) yn tynnu sylw at y 110,000, yn fras, o gartrefi yng Nghymru – tua 7% o'r aelwydydd – sy'n parhau i ddibynnu ar olew gwresogi, yn bennaf mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n nodi newid o foeleri olew i bympiau gwres fel modd o leihau costau gwresogi yn sylweddol. Roedd y Cynllun Uwchraddio Boeleri presennol, a ariennir gan Lywodraeth y DU, yn darparu grantiau o £9,000 i aelwydydd Cymru tan fis Ebrill 2027 dan y trefniadau a oedd ar waith adeg y cyfarfod bord gron ym mis Gorffennaf 2026. O ystyried y cyfnod cymharol fyr lle mae'r lefel hon o gymorth ar gael o hyd, mae mwyhau'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun yng Nghymru yn gyfle byrdymor penodol i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys trwy hyrwyddo ymwybyddiaeth a chefnogi aelwydydd cymwys i fanteisio ar y cyllid.

Fodd bynnag, nododd cyfranogwyr y gallai aelwydydd sydd fwyaf agored i brisiau olew gwresogi hefyd wynebu rhwystrau sylweddol o ran newid eu systemau gwresogi. Gall costau cyfalaf ymlaen llaw barhau i fod yn afresymol hyd yn oed lle bo cymorth ariannol ar gael, tra gall rheolaeth aelwydydd sy'n byw mewn llety rhent dros benderfyniadau ynghylch systemau gwresogi fod yn gyfyngedig. Felly efallai y bydd mwyhau'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun yng Nghymru yn gofyn am roi sylw nid yn unig i ymwybyddiaeth ond hefyd i'r rhwystrau ymarferol ac ariannol sy'n atal aelwydydd rhag gwneud y newid.

Roedd set ar wahân o gynigion yn ymwneud â lleihau costau ynni a gweithredu i fusnesau a sefydliadau'r trydydd sector. Trafododd y cyfranogwyr yr elfen o gefnogi sefydliadau i fuddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle a thechnolegau cysylltiedig, gan eu galluogi i ddiwallu cyfran uwch o'u hanghenion ynni yn uniongyrchol a gostwng eu hamlygiad i brisiau marchnad anwadal. Nodwyd hyn fel ffordd bosibl o gryfhau gwydnwch ariannol a gwydnwch ynni sefydliadau sy'n wynebu cynnydd parhaus mewn costau gweithredu.

Tynnwyd sylw at ddau rwystr ymarferol i fuddsoddiad o'r fath. Y cyntaf oedd cost ymlaen llaw buddsoddiad a mynediad at gyllid fforddiadwy. Trafododd cyfranogwyr y potensial ar gyfer polisi i leihau costau ariannu i fusnesau sy'n ceisio buddsoddi mewn mesurau megis cynhyrchu adnewyddadwy ar y safle, yn enwedig yn achos busnesau bach a chanolig a allai fel arall gael trafferth o ran talu costau uchel ymlaen llaw. Roedd yr ail yn ymwneud â'r system gynllunio, gyda chyfranogwyr yn nodi y gall gofynion cynllunio greu rhwystrau neu oedi ychwanegol i fuddsoddiad mewn cynhyrchu ynni a'r seilwaith cysylltiedig. Felly gallai mynd i'r afael â'r cyfyngiadau

ariannol ac ymarferol hyn helpu i alluogi mwy o fusnesau a sefydliadau eraill i leihau eu costau ynni a'u hamlygiad i siociau prisiau yn y dyfodol.

Mynegodd cyfranogwyr hefyd rôl bosibl prynu ynni i reoli amlygiad i anwadalrwydd y farchnad. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth ynghylch a allai sefydliadau'r sector cyhoeddus wneud mwy o ddefnydd o drefniadau prynu neu ymddiogelu ynni tymor hwy, a pha un a allai fod yna bosibilrwydd i hwyluso dulliau tebyg ar gyfer sefydliadau eraill. Ochr yn ochr â buddsoddi mewn cynhyrchu ar y safle, gallai dulliau o'r fath ddarparu ffordd arall o leihau amlygiad i amrywiadau byrdymor ym mhrisiau ynni, er y byddai eu gwerth yn dibynnu ar gost a thelerau'r trefniadau sydd ar gael.

Adeiladu gwydnwch hirdymor

Wrth edrych y tu hwnt i'r ymateb uniongyrchol, roedd yna gytundeb eang fod lleihau dibyniaeth Cymru ar danwyddau ffosil, cyflymu trydaneiddio a gwella effeithlonrwydd ynni yn ganolog i gryfhau gwydnwch i siociau ynni yn y dyfodol. Ystyrid yr argyfwng sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro nid yn unig fel pwysau costau byrdymor, ond fel tystiolaeth bellach o'r risgiau sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar olew a nwy a fasnachir yn rhyngwladol.

Adlewyrchwyd hyn yn gryf yn y dystiolaeth a rannwyd cyn y cyfarfod bord gron. Mae Millard (2026) yn nodi bod cyflymu'r broses bontio i sero net yn ddull pwysig o leihau amlygiad i siociau ynni yn y dyfodol, yn cynnwys trwy gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Ofgem a chyrff perthnasol eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwaith blaenorol gydag Ofgem ar uwchraddio'r grid ac ymgysylltu ag Ystad y Goron a chyrff eraill i gynyddu'r ynni gwynt alltraeth a gynhyrchir yn y Môr Celtaidd, ochr yn ochr â chyfleoedd i Lywodraeth Cymru ehangu'r gwaith o osod paneli solar ar bennau adeiladau cyhoeddus a chynyddu systemau storio ynni mewn batrïau ac yn lleol. Yn yr un modd, mae Sissons (2026) yn dadlau dros symud y tu hwnt i dechnolegau unigol tuag at gynllunio seiliedig ar leoedd ar gyfer system ynni nad yw'n cynnwys tanwyddau ffosil, gan adeiladu ar y Cynlluniau Ynni Ardal Leol sydd eisoes wedi'u sefydlu ledled Cymru i gyfeirio buddsoddiad yn unol ag amgylchiadau a chyfleoedd lleol.

Tynnodd y drafodaeth sylw hefyd at y ffaith na fyddai pontio tuag at ynni adnewyddadwy yn dileu pob amlygiad i gadwyni cyflenwi rhyngwladol. Er y gallai mwy o gynhyrchu adnewyddadwy domestig leihau amlygiad Cymru i farchnadoedd tanwyddau ffosil rhyngwladol anwadal, mae'r technolegau a'r deunyddiau sy'n ofynnol i ehangu capasiti adnewyddadwy yn parhau i fod yn ddibynnol ar gadwyni cyflenwi byd-eang, gan gynnwys ar gyfer mwynau hanfodol a mewnbynnau eraill. Felly efallai y bydd cryfhau gwydnwch ynni hirdymor yn gofyn am sylw nid yn unig i'r

ffynonellau ynni a ddefnyddir yng Nghymru, ond hefyd i wydnwch y cadwyni cyflenwi a'r capasiti gweithgynhyrchu y mae eu hangen i gyflawni'r broses bontio.

Rhoddodd y cyfranogwyr bwyslais arbennig ar rôl ynni cymunedol a gwaith pontio cyfiawn. Ystyrid prosiectau ynni cymunedol yn un ffordd o ddatblygu systemau ynni lleol mwy gwydn, sydd hefyd yn sicrhau bod cymunedau'n elwa'n uniongyrchol o fuddsoddiad mewn cynhyrchu adnewyddadwy. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth am gadw asedau a manteision economaidd o fewn cymunedau, a chefnogi prosesau cynhyrchu ynni lleol a'r defnydd lleol ohono trwy sefydliadau megis Ynni Cymunedol Cymru. Caiff y safbwynt hwn ei atgyfnerthu gan Turkmen (2026), sy'n dadlau y dylai buddsoddiad mewn sgiliau, capasiti gweithgynhyrchu a chadwyni cyflenwi fod yn cyd-fynd â buddsoddiad mewn cynhyrchu adnewyddadwy, ynni cymunedol ac effeithlonrwydd yn y cartref fel bod y gyflogaeth a'r cyfoeth a gynhyrchir trwy'r broses bontio yn aros o fewn cymunedau Cymru.

Roedd meithrin gwydnwch hefyd yn cael ei ddeall yn ehangach na pholisi ynni'n unig. Mae Turkmen (2026) yn dadlau bod siociau byd-eang dro ar ôl tro wedi datgelu gwendidau sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar farchnadoedd ynni rhyngwladol a chadwyni cyflenwi byd-eang, gan wneud gwydnwch yn fater economaidd a chymdeithasol ehangach nag amcan amgylcheddol yn unig. Mae'r ymatebion a awgrymir yn cynnwys cryfhau prosesau cynhyrchu bwyd lleol a chaffael rhanbarthol, a rhoi mwy o bwyslais ar yr economi sylfaenol, yn cynnwys gofal, tai, bwyd, ynni a thrafnidiaeth leol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adleisio trafodaethau'r cyfarfod bord gron ar adeiladu cyfoeth cymunedol a phwysigrwydd cryfhau economïau lleol.

Pwysleisiodd cyfranogwyr yn yr un modd bwysigrwydd gwydnwch cymdeithasol cymunedau. Mae gan aelwydydd a chymunedau sydd eisoes yn profi tlodi ac ansicrwydd ariannol lai o allu i amsugno siociau ychwanegol, tra gall amddifadedd sy'n gwaethygu gynyddu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus a chymunedol. Ar ben hyn, gall cyfnodau o darfu dro ar ôl tro roi pwysau ychwanegol ar sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, a hynny pan fo'r galw am eu cymorth hefyd yn cynyddu. Felly, ystyrid bod cryfhau gallu'r sefydliadau hyn, ochr yn ochr â lleihau tlodi ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a chefnogi cymunedau cydlynol, yn rhan o'r broses o wella gallu Cymru i wrthsefyll siociau yn y dyfodol. Mae gwydnwch hirdymor nid yn unig yn golygu lleihau amlygiad i farchnadoedd ynni anwadal, ond hefyd cryfhau gallu economaidd a chymdeithasol cymunedau i ymateb i gyfnodau o darfu.

Bydd cyflawni'r newidiadau hyn yn gofyn am fuddsoddiad a chydgysylltu parhaus ar draws lefelau gwahanol llywodraeth. Mae llawer o'r dulliau polisi perthnasol a'r penderfyniadau seilwaith yn estyn y tu hwnt i gylch gwaith Llywodraeth Cymru. Felly, pwysleisiodd y cyfranogwyr ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru weithio gyda

Llywodraeth y DU, Ofgem a chyrff perthnasol eraill, gan ar yr un pryd eiriol dros fuddsoddiad a phenderfyniadau polisi ehangach sy'n adlewyrchu anghenion daearyddol, economaidd a chymdeithasol penodol Cymru.

Myfyrdodau

Tynnodd y cyfarfod bord gron sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymateb i argyfwng rhyngwladol sy'n esblygu'n gyflym, yn enwedig yng nghyd-destun datganoli a rhannu cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Er bod yna gytundeb eang ynghylch y prif sianeli y mae'r gwrthdaro yn effeithio ar Gymru trwyddynt, nododd y drafodaeth hefyd ansicrwydd a thensiynau pwysig a fydd yn llunio ymatebion polisi uniongyrchol ac ymdrechion tymor hwy i gryfhau gwydnwch.

Cydbwyso cyflymder a thargedu mewn ymatebion polisi

Thema ailadroddus oedd y cyfaddawd rhwng cyflymder a symlrwydd o ran gallu darparu cymorth, a pha mor effeithiol y gellir targedu'r cymorth hwnnw at y rhai yr effeithir arnynt fwyaf. Myfyriodd cyfranogwyr ar ymatebion blaenorol i argyfyngau ynni a chostau byw, gan nodi y gall ymyraethau prisiau eang eu sail fod yn gymharol syml i'w gweithredu'n gyflym a'u bod yn darparu amddiffyniad uniongyrchol rhag costau cynyddol, ond y gallant hefyd fod yn ddrud a darparu cymorth sylweddol i aelwydydd a chanddynt fwy o allu i amsugno'r sioc.

Felly, anogodd y drafodaeth gyfaddawd ehangach rhwng tegwch ac effeithlonrwydd wrth gynllunio cymorth. Gallai trosglwyddiadau mwy targededig gynnig gwell gwerth am arian trwy gyfeirio adnoddau at y rhai sy'n profi'r pwysau ariannol mwyaf. Mae hyn yn gyson â Millard (2026), sy'n dadlau y byddai cymorth wedi'i dargedu at aelwydydd tlotach yn well na chymorth diwahân i aelwydydd, sy'n ddrutach a hefyd yn gallu bod o fudd anghymesur i aelwydydd incwm uwch am eu bod yn defnyddio mwy o ynni mewn termau absoliwt. Fodd bynnag, mae dulliau mwy targededig hefyd yn anos i'w cynllunio a'u gweinyddu'n effeithiol, yn enwedig pan nad incwm yn unig sy'n cynrychioli bregusrwydd.

Fel y trafodwyd yn gynharach, gall amlygiad i'r sioc bresennol adlewyrchu gofynion ynni aelwydydd, anabledd, cyflyrau iechyd, tai, dibyniaeth ar drafnidiaeth a mathau o danwydd, yn ogystal ag incwm. Yr her felly yw nid dim ond pennu pa nodweddion sy'n gysylltiedig â bregusrwydd, ond mynd ati i nodi aelwydydd unigol â'r nodweddion hyn mewn modd sy'n galluogi i gymorth gael ei ddarparu. Nid yw systemau data

presennol o reidrwydd yn caniatáu i'r gwahanol ddimensiynau hyn o fregusrwydd gael eu nodi a'u cysylltu'n hawdd. Felly, gallai gwella prosesau cysylltu data a galluogrwydd gweinyddol gryfhau parodrwydd ar gyfer siociau ynni a chostau byw yn y dyfodol, gan alluogi ymatebion mwy targededig pan fo gofyn.

Mae'r ystyriaethau hyn yn awgrymu ei bod yn annhebyg fod yna un dull sy'n hyrwyddo cyflymder, cwmpas a gwaith targedu ar yr un pryd. Gall y cydbwysedd priodol hefyd ddibynnu ar natur a hyd y sioc: gall ymyraethau eang fod â manteision lle bo gofyn darparu cymorth yn gyflym, tra gall dulliau mwy targededig ddod yn fwyfwy pwysig lle bo pwysau'n parhau a chyfyngiadau cyllidol yn gwneud cost cymorth cyffredinol yn anos i'w chynnal.

Ansicrwydd ynglŷn â'r gwrthdaro

Nid oedd y cyfarfod bord gron wedi asesu senarios gwrthdaro amgen yn systematig, ond pwysleisiodd cyfranogwyr y byddai graddfa a pharhad yr effeithiau ar Gymru yn dibynnu'n sylweddol ar hyd y tarfu a pharhad prisiau ynni uwch. Mae dadansoddiad dilynol gan Fanc Lloegr (2026b) yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer amlygu'r ansicrwydd hwn. Mae ei Adroddiad Polisi Ariannol ym mis Gorffennaf 2026 yn ystyried rhagamcaniad canolog ochr yn ochr â senarios mwy cymedrol ac andwyol, gan adlewyrchu rhagdybiaethau gwahanol ynghylch llwybr prisiau ynni byd-eang yn y dyfodol a'r graddau y mae'r sioc gychwynnol yn cynhyrchu effeithiau mwy parhaus ar gyflogau a phrisiau. Mae'r senario fwy cymedrol yn rhagdybio prisiau ynni ychydig yn is, elfen sydd, yn fras, yn gyson â'r gwrthdaro'n tawelu'n barhaol a llai o anwadalrwydd o ran prisiau ynni. Mewn cyferbyniad, mae'r senario andwyol yn tybio bod prisiau olew a nwy yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r rhagamcaniad canolog trwy gydol y cyfnod rhagolygol, fel procsi ar gyfer y gwrthdaro'n parhau, a hynny o bosibl yn episodaidd a heb ddatrysiad eglur.

Yn fwy eang, gellir amlygu'r ansicrwydd sy'n ymwneud â'r gwrthdaro trwy dri llwybr dangosol:

1. Tarfu cyfyngedig am gyfnod penodol ac yna prisiau ynni'n gostwng;
2. Cyfnod 'stopio-ailddechrau' o ddwysáu a dad-ddwysáu dro ar ôl tro;
3. Tarfu hir yn estyn i 2027.

Nid yw'r rhain yn senarios a ddatblygwyd trwy'r cyfarfod bord gron, ac nid ydynt chwaith yn rhagolygon ar gyfer Cymru. Yn hytrach, maent yn darparu fframwaith dadansoddol ar gyfer ystyried y modd y gallai'r effeithiau a nodwyd yn yr adroddiad hwn amrywio wrth i'r gwrthdaro ddatblygu. O'r rhain, mynegwyd yn benodol yn ystod y cyfarfod bord gron y posibilrwydd o batrwm stopio-ailddechrau o ddwysáu a dad-ddwysáu. Gallai llwybr o'r fath fod yn arbennig o heriol am y gall ansicrwydd hirdymor

effeithio ar ymddygiad economaidd, penderfyniadau o ran buddsoddiadau, cadwyni cyflenwi a hyder aelwydydd, gan hefyd ei gwneud yn anos pennu graddfa, amseriad a hyd priodol ymyraethau polisi.

Roedd y cynnydd parhaus ym mhrisiau olew a nwy adeg y cyfarfod bord gron, er gwaethaf disgwyliadau cynharach y gallai'r gwrthdaro a'r tarfu yng Nghulfor Hormuz dawelu, yn amlygu'r anhawster o gynllunio o amgylch sefyllfa geowleidyddol sy'n newid yn gyflym. Mae datblygiadau dilynol wedi atgyfnerthu'r ansicrwydd hwn. Erbyn mis Gorffennaf 2026, roedd prisiau olew wedi gostwng ddigon fel bod Banc Lloegr wedi asesu effeithiau'r gwrthdaro yn rhai llai difrifol i ryw raddau na'r hyn yr oedd wedi'i rag-weld ym mis Ebrill, er bod prisiau ynni yn parhau i fod yn uwch na'r lefelau cyn y gwrthdaro (Banc Lloegr, 2026b). Fodd bynnag, mae'r tarfu ar y llif ynni rhanbarthol wedi parhau, a chododd prisiau olew eto yn ystod mis Awst. Adeg ysgrifennu ym mis Medi 2026, mae yna darfu o hyd ar fordwyo trwy'r Culfor ac mae'r rhagolygon o ran llif a phrisiau ynni yn parhau i fod yn ansicr (Y Sefydliad Morol Rhyngwladol, 2026; Gweinyddiaeth Gwybodaeth Ynni UDA, 2026).

Mae angen deall yr argyfwng presennol hefyd yng nghyd-destun siociau dro ar ôl tro, a'r rheiny'n rhai a allai orgyffwrdd. Nododd y cyfranogwyr fod aelwydydd, busnesau, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus eisoes wedi profi cyfnodau olynol o darfu, yn cynnwys pandemig COVID-19 a'r pwysau dilynol o ran costau byw a phrisiau ynni. Gallai effeithiau sioc newydd felly gymhlethu'r pwysau presennol yn hytrach na digwydd o fan cychwyn niwtral. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae siociau blaenorol eisoes wedi gostwng clustogau ariannol aelwydydd, wedi rhoi pwysau ar wydnwch sefydliadol neu wedi cyfrannu at y galw parhaus am wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r posibilrwydd o bwysau sy'n gorgyffwrdd yn arbennig o bwysig ar gyfer gwydnwch gwasanaethau cyhoeddus. Fel y trafodwyd uchod, gall costau uwch a llai o bŵer gwario gyd-fynd â mwy o alw am wasanaethau, tra gallai tarfu ar danwydd greu heriau ychwanegol ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol. Gallai'r pwysau hyn ddod yn fwy acíwt yn ystod y gaeaf. Mae gwydnwch felly'n dibynnu nid yn unig ar baratoi ar gyfer risgiau unigol, ond hefyd ar ystyried y modd y gallai pwysau gwahanol, yn economaidd, yn gymdeithasol ac ar wasanaethau cyhoeddus, ryngweithio.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd cynnal hyblygrwydd mewn ymatebion polisi byrdymor wrth gynllunio ar gyfer ystod o senarios posibl yn y dyfodol. Ar yr un pryd, mae ansicrwydd yn cryfhau yn hytrach na gwanhau'r achos dros adeiladu gwydnwch tymor hwy. Nid yw'r gwendidau a amlygwyd gan yr argyfwng presennol – gan gynnwys dibyniaeth ar danwyddau ffosil a fasnachir yn rhyngwladol, tlodi ac anghydraddoldeb, pwysau ar wasanaethau cyhoeddus ac amlygiad i gadwyni

cyflenwi byd-eang – yn unigryw i'r gwrthdaro yn Iran. Yn yr un modd, mae Turkmen (2026) yn dadlau bod siociau olynol wedi datgelu dro ar ôl tro ddibyniaeth Cymru ar rymoedd economaidd sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Felly, daeth y gwahaniaeth rhwng ymateb i'r sioc bresennol a pharatoi ar gyfer siociau yn y dyfodol i'r amlwg fel thema gyffredinol bwysig. Gall mesurau di-oed helpu i liniaru effeithiau prisiau uwch ar aelwydydd, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus, ond bydd gwydnwch tymor hwy yn dibynnu ar fynd i'r afael â'r gwendidau sylfaenol sy'n pennu pa mor ddifrifol y teimlir siociau o'r fath, ac ar gryfhau gallu Cymru i ymateb lle bo siociau'n digwydd ar y cyd.

Y dirwedd bolisi ehangach a rôl Llywodraeth Cymru

Mae angen deall yr ystyriaethau hyn o fewn y dirwedd bolisi ehangach a'r posibilrwydd i Lywodraeth Cymru weithredu. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod llawer o'r prif ddulliau sy'n cael dylanwad ar yr effeithiau a nodwyd yn yr adroddiad hwn – yn cynnwys llesiant, rheoleiddio marchnadoedd ynni ac agweddau ar seilweithiau ynni graddfa fawr – yn parhau i fod y tu allan i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Mae'r ffaith bod Cymru wedi'i hintegreidido i farchnad ynni Prydain Fawr yn golygu, er enghraifft, mai cyfyngedig yw gallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu'n uniongyrchol ar y prisiau ynni mae aelwydydd yn eu hwynebu.

Fodd bynnag, awgrymodd y drafodaeth fod gallu Llywodraeth Cymru i ymateb yn dibynnu ar fwy na rhannu cyfrifoldebau datganoledig a neilltuedig yn ffurfiol. Gall penderfyniadau a wneir ar lefel y DU olygu goblygiadau gwahanol ledled y DU oherwydd nodweddion economaidd, daearyddol a chymdeithasol penodol Cymru. Felly, tynnodd y cyfranogwyr sylw at bwysigrwydd adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru mewn penderfyniadau ar lefel y DU, ochr yn ochr â gwaith cydgysylltu effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystod cyfnodau o darfu.

Nid yw hyn yn golygu nad oes gan Lywodraeth Cymru ei dulliau ystyrlon ei hun. Nododd y drafodaeth gyfuniad a fyddai'n cynnwys dylanwadu ar benderfyniadau ar lefel y DU, eiriol dros anghenion Cymru, defnyddio cyfrifoldebau datganoledig i dargedu cymorth, a chyflymu blaenoriaethau tymor hwy mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni, datgarboneiddio a gwydnwch cymunedol.

Mae cymorth busnes yn dangos pwysigrwydd y rhyngweithio rhwng polisi ar lefel Cymru ac ar lefel y DU. Nododd y cyfranogwyr fod busnesau bach a chanolig yn cyfrif am gyfran fawr o fusnesau Cymru ond nad yw ymyraethau a gynllunnir ar lefel y DU o bosibl yn eu cyrraedd mewn modd effeithiol bob amser. Yn fwy cyffredinol, bydd rôl briodol Llywodraeth Cymru yn amrywio'n ôl y maes polisi: mewn rhai achosion efallai y bydd yn bosibl iddi weithredu'n uniongyrchol, tra mewn achosion

eraill bydd ei rôl, yn bennaf, yn golygu cydgysylltu, dylanwadu ac eiriol dros benderfyniadau ar lefel y DU sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol Cymru.

Gyda'i gilydd, nododd y dystiolaeth a'r drafodaeth trwy gydol y cyfarfod bord gron nifer o feysydd y gallai Llywodraeth Cymru eu hystyried, naill ai trwy ei chyfrifoldebau datganoledig neu drwy weithio gyda Llywodraeth y DU a chyrff perthnasol eraill a dylanwadu arnynt. Mae'r brif rôl polisi yn amrywio ledled y meysydd hyn: mae rhai'n ymwneud â dulliau datganoledig neu ddarpariaeth Llywodraeth Cymru, tra bo eraill yn dibynnu ar gyfrifoldebau neilltuedig ar lefel y DU neu gyfuniad o gamau gweithredu datganoledig a neilltuedig. O ran amseriad, mae'r mesurau isod yn rhychwantu camau y gellid eu cymryd cyn neu yn ystod gaeaf 2026-27 (y byrdymor), mesurau y gellid eu symud ymlaen yn ystod y flwyddyn ganlynol, a chamau gweithredu strwythurol tymor hwy (gweler Tabl 1 isod).

Tabl 1. Opsiynau polisi posibl, yr amserlen a'r cyfrifoldeb arweiniol dros bolisi

Opsiwn polisi posibl	Yr amserlen	Cyfrifoldeb arweiniol dros bolisi
Hyrwyddo'r nifer sy'n manteisio ar y cymorth presennol ar gyfer symud oddi wrth wresogi â thanwyddau ffosil. Mae hyn yn cynnwys hybu'r defnydd o'r Cynllun Uwchraddio Boeleri ymhlith aelwydydd cymwys yng Nghymru, ynghyd â'r grant o £9,000 sydd ar gael tan fis Ebrill 2027 dan y trefniadau a oedd ar waith adeg y cyfarfod bord gron ym mis Gorffennaf 2026, gan gydnabod y rhwystrau ariannol ac ymarferol a allai atal rhai aelwydydd rhag newid eu systemau gwresogi.	Y byrdymor	Llywodraeth Cymru, yn gweithio o fewn cynllun a ariennir gan Lywodraeth y DU
Hyrwyddo mesurau effeithlonrwydd ynni cymharol isel eu cost a defnydd hyblyg o drydan, gan gynnwys ystyried cyfleoedd ar gyfer darparu mesurau'n uniongyrchol neu ar ffurf swmpgyflenwadau, a allai leihau'r defnydd o ynni lle mae costau	Y byrdymor	Llywodraeth Cymru, yn gweithio gyda chyrff perthnasol ar lefel y DU a sefydliadau'r sector ynni lle bo gofyn

ymlaen llaw yn creu rhwystrau i aelwydydd.		
Targedu unrhyw gymorth i aelwydydd yng Nghymru yn ôl incwm ac angen, gan gydnabod y gall bregusrwydd adlewyrchu anabledd, cyflyrau iechyd a gofynion ynni anochel yn ogystal ag incwm aelwydydd, a gwella trefniadau cysylltu data a galluogrwydd gweinyddol i gefnogi prosesau targedu mwy effeithiol.	Yn y byrdymor a thu hwnt	Llywodraeth Cymru, gyda chyfranogiad Llywodraeth y DU lle bo'r cymorth yn dibynnu ar ddulliau lles neu ariannol neilltuedig
Cefnogi busnesau bach a chanolig a sefydliadau eraill i fuddsoddi mewn mesurau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni ar y safle, sy'n cwmpasu archwilio ffyrdd o wella mynediad at gyllid fforddiadwy ac o fynd i'r afael â rhwystrau ymarferol i fuddsoddiad, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r system gynllunio.	O fewn y flwyddyn nesaf	Llywodraeth Cymru, gyda chyrff cyhoeddus ac ariannol eraill lle bo'n berthnasol
Archwilio pa un a allai trefniadau prynu ynni neu ymddiogelu tymor hwy helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus, ac o bosibl sefydliadau eraill, i leihau eu hamlygiad i anwadalrwydd prisiau ynni byrdymor.	O fewn y flwyddyn nesaf	Sefydliadau sector cyhoeddus Cymru, gyda rôl gydgysylltu neu alluogi bosibl i Lywodraeth Cymru
Cefnogi dulliau ynni cymunedol a meithrin cyfoeth cymunedol, gan gynnwys cyfleoedd i gadw mwy o'r asedau, y gyflogaeth a'r buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r broses pontio ynni o fewn cymunedau Cymru. Yn yr un modd, mae Turkmen (2026) yn nodi bod buddsoddiad mewn sgiliau, capasiti gweithgynhyrchu a chadwyni cyflenwi yn elfennau pwysig i gadw buddion y pontio yn lleol.	Y tymor canolig i'r hirdymor	Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol/cymunedol, ochr yn ochr â chyrff ar lefel y DU lle bo hynny'n berthnasol
Adeiladu ar Gynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosesau pontio ynni sy'n seiliedig ar leoedd, gan gyfeirio	Y tymor canolig i'r hirdymor	Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, o fewn tirwedd polisi ynni ehangach Prydain Fawr

buddsoddiad yn unol â gwahanol anghenion a chyfleoedd cymunedau Cymru.		
Gweithio gyda Llywodraeth y DU, Ofgem, Ystad y Goron a chyrff perthnasol eraill ar seilwaith ynni a gwydnwch tymor hwy, yn cynnwys uwchraddio'r grid, ynni gwynt ar y môr, cynhyrchu adnewyddadwy a storio ynni, gan gydnabod pwysigrwydd parhaus cadwyni cyflenwi rhyngwladol gwydn ar gyfer y technolegau a'r deunyddiau gofynnol i gyflawni'r prosesau pontio.	Yr hirdymor	Llywodraeth y DU, Ofgem ac Ystad y Goron ar gyfer dulliau neilltuedig/system allweddol, gyda Llywodraeth Cymru yn bartner ac eiriolwr
Cryfhau parodrwydd ar gyfer siociau yn y dyfodol a siociau sy'n gorgyffwrdd, gan gynnwys trwy weithredu i leihau tlodi, cryfhau economïau lleol a sylfaenol, cefnogi sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, a chynnal gwydnwch cymdeithasol a chymunedol.	Parhaus	Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau cymunedol a Llywodraeth y DU fel y bo'n berthnasol

Gyda'i gilydd, mae'r meysydd gweithredu posibl hyn yn adlewyrchu dau amcan cyffredinol a oedd yn rhedeg trwy gydol y cyfarfod bord gron: lliniaru effeithiau uniongyrchol y sioc bresennol a mynd i'r afael â'r gwendidau sylfaenol sy'n pennu amlygiad Cymru i siociau yn y dyfodol. Maent hefyd yn adlewyrchu pwysigrwydd ystyried gwydnwch economaidd a chymdeithasol, a gwydnwch gwasanaethau cyhoeddus gyda'i gilydd. Gallai lleihau dibyniaeth ar farchnadoedd tanwyddau ffosil anwadal, ar yr un pryd â chryfhau aelwydydd, cymunedau, gwasanaethau cyhoeddus ac economïau lleol, gynyddu gallu Cymru i wrthsefyll cyfnodau o darfu economaidd ac ansefydlogrwydd rhyngwladol yn y dyfodol.

Cyfeirnodau

Banc Lloegr. (2026a). **Adroddiad Polisi Ariannol - Ebrill 2026.** Adalwyd o: **https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/2026/april-2026**

Banc Lloegr. (2026b). **Adroddiad Polisi Ariannol - Gorffennaf 2026.** Adalwyd o: **https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/2026/july-2026**

Bunn, P., Bloom, N., Mizen, P., Thwaites, G., Yotzov, I. (2026). **How UK firms are responding to the war in Iran: Early evidence from the Decision Maker Panel.** Centre for Economic Policy Research. Adalwyd o: **https://cepr.org/voxeu/columns/how-uk-firms-are-responding-war-iran-early-evidence-decision-maker-panel**

Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net. (2026). **Prisiau tanwydd ffordd wythnosol.** Adalwyd o: **https://www.gov.uk/government/statistics/weekly-road-fuel-prices**

Hill, R., Griffiths, D., Janssen, H., Ford, K., Carella, N., Gascoyne, B., Azam, S. (2024). **Cartrefi oer yng Nghymru: A yw'r drefn wresogi foddhaol yn briodol ar gyfer iechyd a llesiant?** Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o: **https://icc.gig.cymru/adroddiad-iechyd-cyhoeddus/cartrefi-oer-yng-nghymru-a-ywr-drefn-wresogi-foddhaol-yn-briodol-ar-gyfer-iechyd-a-llesiant/**

Y Sefydliad Morol Rhyngwladol. (2026). **Middle East – Strait of Hormuz.** Adalwyd o: **https://www.imo.org/en/mediacentre/hottopics/pages/middle-east-strait-of-hormuz.aspx**

Clwb ITEM. (2026). **Spring 2026 Forecast: Weakened regional labour market as energy costs bite.** Adalwyd o: **https://item-club.com/wp-content/uploads/2025/11/ITEM-Spring-2026-regional-outlook-report.pdf**

Kaya, A. (2026). **How might the Middle East conflict shape Europe's inflation outlook?** Economics Observatory. Adalwyd o: **https://www.economicsobservatory.com/how-might-the-middle-east-conflict-shape-europes-inflation-outlook**

Millard, S. (2026). **Effaith y gwrthdaro yn Iran ar economi Cymru.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o: **https://wcpp.org.uk/cy/blog-posts/effaith-y-gwrthdaro-yn-iran-ar-economi-cymru/**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2026a). **Business insights and impact on the UK economy: July 2026.** Adalwyd o: **https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/businessservices/bulletins/businessinsightsandimpactontheukeconomy/23july2026**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2026b). **Public opinions and social trends, Great Britain: July 2026** Adalwyd o:

https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/publicopinionsandsocialtrendsgreatbritain/latest#cost-of-living

Ofgem. (2026). **Energy price cap will rise by 13% from July.** Adalwyd o: **https://www.ofgem.gov.uk/press-release/energy-price-cap-will-rise-13-july**

Y Ffederasiwn Bwyd a Diod. (2026). **Understanding UK food inflation.** Adalwyd o: **https://www.fdf.org.uk/fdf/resources/publications/reports/understanding-uk-food-inflation-report-access/#form**

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). (2026). **OECD Economic Outlook, Cyfrol 2026 Rhifyn 1: Under Pressure.** OECD Publishing. Adalwyd o: **https://www.oecd.org/en/publications/oecd-economic-outlook-volume-2026-issue-1_2d1956f0-en/full-report.html**

Sissons, A. (2026). **Sut gall Cymru ymateb i argyfwng ynni 2026.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o: **https://wcpp.org.uk/cy/blog-posts/sut-gall-cymru-ymateb-i-argyfwng-ynni-2026/**

Turkmen, H. (2026). **Gwrthdaro Byd-eang, Effaith Leol: Pam na all Cymru anwybyddu'r Rhyfel yn Iran** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. **Adalwyd o: https://wcpp.org.uk/cy/blog-posts/gwrthdaro-byd-eang-effaith-leol-pam-na-all-cymru-anwybyddur-rhyfel-yn-iran/**

Gweinyddiaeth Gwybodaeth Ynni UDA. (2026). **Short-Term Energy Outlook: Global oil markets.** Adalwyd o: **https://www.eia.gov/outlooks/steo/report/global_oil.php**

Llywodraeth Cymru. (2025). **Amcangyfrifon tlodi tanwydd ar gyfer Cymru: Hydref 2024** Adalwyd o: **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-wediu-modelu-ar-gyfer-cymru-ym-mis-hydref-2024**

Llywodraeth Cymru. (2026). **Tlodi incwm cymharol.** Adalwyd o: **https://www.llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol**

Manylion am yr Awduron

Roedd **Ioana Filipas** yn Brentis Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Josh Coles-Riley** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Jack Price** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Jack Price
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru